| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **CYNGOR** |
| **Dyddiad:** | **4 Mawrth 2021** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Mabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2021 / 22** |
| **Awdur:** | **Dilwyn Williams – Prif Weithredwr** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |

**CEFNDIR**

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Yn sgîl hynny ac yn unol â threfniadau sydd wedi'u gweithredu yn y cyfamser, gofynwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2021 / 22 yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Chwefror eleni, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 4ydd o Fawrth.

**PRIF SWYDDOGION**

4. Adroddwyd wrth y Pwyllgor y llynedd fod yna beryg fod cyflogau prif swyddogion yng Ngwynedd yn llithro ar ôl swyddi cyfatebol mewn cynghorau eraill yn y rhanbarth, a bod hynny yn arwain at risg posib i ni o ran recriwtio a chadw staff. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weithredwr gynnal adolygiad o gyflogau prif swyddogion a chyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad hwnnw yn y cyfarfod ar yr 11eg o Chwefror.

5. Cafwyd dadansoddiad gan y Prif Weithredwr o'r farchnad ar gyfer swyddi arweinyddion llywodraeth leol yn rhanbarthol, ac eglurwyd ei bod yn gwneud synnwyr i gynnal dadansoddiad o fewn y cyd-destun hwnnw bellach, yn hytrach na chynnal asesiad wedi ei seilio ar y farchnad ar lefel Prydain fel a wnaethpwyd yn y gorffennol.

6. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, derbyniodd y Pwyllgor bod angen adolygu cyflogau prif swyddogion y Cyngor, ond gan fod posib y bydd yna rewi ar gyflogau rhai swyddogion yn y sector gyhoeddus, y dylid gohirio'r mater ymhellach hyd nes bod staff y Cyngor yn ehangach yn derbyn codiadau cyflog. Penderfynwyd y dylai'r Pwyllgor ail ymweld â chynnwys yr adroddiad yn syth ac ystyried y cynnwys ymhellach bryd hynny.

7. Cafwyd trafodaeth ychydig yn wahanol ynghylch swydd y Swyddog Monitro. Adroddwyd nad yw cyflog y swydd yn gystadleuol â swyddi sydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau cyfatebol mewn awdurdodau lleol rhanbarthol eraill, a bod hynny yn cyflwyno risg sydd yn annerbyniol i weithrediad effeithiol y Cyngor. Daeth y Pwyllgor felly i benderfyniad y dylid gweithredu yn ddiymdroi ac y dylid codi cyflog y swydd honno yn syth i uchafswm o tua £70,000.

8. Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan **'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyferninr gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'**. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ar gyfer y flwyddyn 2020/21 roedd y cynnydd yn 2.75%

9. Fel yr awgrymir ym mharagraff 6 uchod, ym mis Tachwedd 2020 cafwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth Prydain y bydd yna rewi ar gyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus am y tro. Er nad ydi effaith y cyhoeddiad hwn ar lywodraeth leol yn gwbl glir eto, mae'n bosib y gall y cyhoeddiad ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau ar gynnydd yn y cyflogau yn y pen draw. Gwyddom fod y broses o drafod ar fin dechrau, ac fe ddaw'r sefyllfa yn gliriach maes o law felly.

10. Oni bai am y newid y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod felly, nid oes unrhyw newid pellach i'r polisi tâl o'r hyn a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2020/21.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

11. Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Roedd y cynnydd yn y cyflog ar gyfer 2020/21 yn 2.75%.

12. Fe all y cyhoeddiad i rewi cyflogau rhai rhannau o'r sector gyhoeddus fod yn berthnasol ar gyfer ein gweithlu ehangach ni am y flwyddyn sydd i ddod hefyd. Mae'r trafodaethau cenedlaethol ar gynnydd posib ar fin dechrau, ac fe ddaw'n amlwg yn fuan pa ddylanwad y caiff cyhoeddiad Llywodraeth Prydain ar y broses honno.

13. Pe bai yna gynnydd yn y cyflogau ar gyfer 2021/22 yna bydd y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw benderfyniad cyn gynted â phosib.

## ARGYMHELLIAD

14. Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2020 / 21, yn cynnwys y penderfyniad a nodir ym mharagraff 7.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro (Paratowyd gan yr Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol):**
Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor Llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl gerbron yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2021/22, sy'n eitem arall ar raglen cyfarfod yma'r Cyngor.